Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Categori cymhwystra newydd ar gyfer gwladolion Wcreinaidd ac aelodau o'u teuluoedd sydd i'w gynnwys yng Nghynlluniau Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru: blwyddyn academaidd 2022 i 2023

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn rhoi manylion am y categori cymhwystra newydd ar gyfer gwladolion Wcreinaidd ac aelodau o'u teulu.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 18 Awst 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/categori-cymhwystra-newydd-ar-gyfer-gwladolion-wcreinaidd-ac-aelodau-ou-teuluoedd-sydd-iw-gynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 18 Awst 2022

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/categori-cymhwystra-newydd-ar-gyfer-gwladolion-wcreinaidd-ac-aelodau-ou-teuluoedd-sydd-iw-gynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

**Trosolwg**

**Categori preswyliaeth newydd i wladolion Wcreinaidd ac aelodau o'u teulu**

**Ffurflenni cais**

**Ymholiadau**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/categori-cymhwystra-newydd-ar-gyfer-gwladolion-wcreinaidd-ac-aelodau-ou-teuluoedd-sydd-iw-gynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Trosolwg

Mae'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn rhoi manylion am y categori cymhwystra newydd ar gyfer gwladolion Wcreinaidd ac aelodau o'u teulu, a fydd yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) a Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru a asesir ar sail incwm ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022 i 2023.

Sicrhewch fod yr Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn cael ei ddosbarthu i'r holl staff a chydweithwyr sy'n helpu i weinyddu'r cynlluniau.

Bydd copi o'r cynlluniau LCA a Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022 i 2023 ar gael i'w **gweld ar dudalen we cyllid i fyfyrwyr Llywodraeth Cymru cyn hir**.

# Categori preswyliaeth newydd i wladolion Wcreinaidd ac aelodau o'u teulu

Bydd darpariaeth yn cael ei gynnwys yng nghynlluniau LCA a Grant Dysgu (Addysg Bellach) Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023 i'r rhai y rhoddir caniatâd iddynt aros gan y Swyddfa Gartref o dan Gynlluniau perthnasol Wcráin, neu y rhoddir caniatâd iddynt aros y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo am reswm sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro yn Wcráin. Mae'r categori newydd yn debyg i'r hyn sy'n cael ei gynnwys ar gyfer cyllid i fyfyrwyr addysg uwch ac y rhoddwyd gwybod amdano eisoes drwy **Hysbysiad Gwybodaeth 06/2022**.

Bydd y categori newydd yn unol â chategorïau eraill sy'n seiliedig ar amddiffyn. Mae hyn yn golygu na fydd angen i'r person fodloni gofyniad y cyfnod preswylio tair blynedd arferol yn y DU.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/categori-cymhwystra-newydd-ar-gyfer-gwladolion-wcreinaidd-ac-aelodau-ou-teuluoedd-sydd-iw-gynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Bydd person yn gymwys os yw:

1. wedi cael caniatâd i aros o dan y Cynlluniau Wcráin
2. wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo am reswm sy'n gysylltiedig â'r gwrthdaro yn Wcráin
3. yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo aros o dan y Cynllun Wcráin neu y tu allan i'r Rheolau Mewnfudo
4. yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs

Bydd person yn gymwys i gael cymorth os yw'n bodloni meini prawf y categori cymhwystra newydd a'r holl feini prawf perthnasol eraill.

# Ffurflenni cais

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru wedi diweddaru'r ffurflen gais a'r nodiadau canllaw ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023, ac maent ar gael o **wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru**.

Dim ond ar ôl gweld cais wedi'i gwblhau'n llawn gyda'r dystiolaeth ategol briodol y bydd Cyllid Myfyrwyr Cymru yn gallu penderfynu ar gymhwystra hawl.

Dylai myfyrwyr sy'n bodloni'r gofynion a nodir uchod, ac sy'n ceisio gwneud cais am **LCA** a **Grant Dysgu (Addysg Bellach)** Llywodraeth Cymru, ddefnyddio'r ffurflen gais a'r nodiadau canllaw ar gyfer blwyddyn academaidd 2022 i 2023 sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru.

Dylai myfyrwyr sydd eisoes wedi cael pecyn cais gan eu hysgol neu eu coleg cyn 1 Awst 2022, neu sydd wedi ymgeisio o'r blaen ac wedi cael eu gwneud yn anghymwys ar sail eu statws preswylio, ddarllen y diweddariad diweddaraf ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/categori-cymhwystra-newydd-ar-gyfer-gwladolion-wcreinaidd-ac-aelodau-ou-teuluoedd-sydd-iw-gynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**wefan Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael cyngor ar sut i wneud cais**.

Gellir cysylltu â gwasanaeth cwsmeriaid dwyieithog Cyllid Myfyrwyr Cymru hefyd ar 0300 200 4050.

# Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau, cysylltwch â Thîm Addysg Uwch Llywodraeth Cymru drwy e-bostio **isadrancyllidmyfyrwyr@llyw.cymru**. Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu’n Saesneg.

Gellir lawrlwytho copi o'r Hysbysiad Gwybodaeth hwn yn Gymraeg neu’n Saesneg o **dudalen we cyllid a chyllid i fyfyrwyr** Llywodraeth Cymru.

Gellir gofyn am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/categori-cymhwystra-newydd-ar-gyfer-gwladolion-wcreinaidd-ac-aelodau-ou-teuluoedd-sydd-iw-gynnwys** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.